Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl357

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Arian i gefnogi Ymgyrch Scotney**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio ystod eang o dactegau datrys er mwyn atal a rhwystro ymgyrchoedd cyffuriau anghyfreithlon rhag dod i mewn a gweithredu o fewn yr ardal heddlu.
Mae'r heddlu wedi ymrwymo i greu amgylchedd gelyniaethus ac atal Grwpiau Troseddu Trefnedig rhag sefydlu eu hunain o fewn y rhanbarth.
Mae un o'r tactegau a ddefnyddir yn cynnwys annog preswylwyr i adrodd am weithgarwch amheus o fewn eu cymunedau. Mae Timoedd Plismona Bro ac Atal wedi bod yn ymgysylltu â chymunedau ledled yr ardal heddlu ac yn rhannu deunydd, sy'n cael effaith gadarnhaol.
Ymgyrch Scotney yw ymateb Heddlu Dyfed-Powys i gynnydd sylweddol o ran trin canabis yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Mae Ymgyrch Scotney wedi datblygu ystod eang o arfau cyfathrebu sydd eisoes yn cael eu rhannu gyda busnesau a phreswylwyr yn Nyfed-Powys.
Er mwyn gwella'r cyfathrebu hwn, gwnaed cais am gyllid CHTh i gefnogi ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a fydd yn targedu lleoliadau sydd mewn mwy o berygl o gamfanteisio'n benodol.
Bydd yr ymgyrch ar-lein hon yn codi ymwybyddiaeth am fygythiadau cyffuriau posibl yn y gymuned a sut i adrodd am weithgarwch amheus. Bydd yr ymgyrch hefyd yn hysbysu'r cyhoedd ac unrhyw grwpiau troseddu trefnedig sy'n dod i'r rhanbarth y bydd yr heddlu'n mynd ar drywydd unrhyw weithgarwch anghyfreithlon yn gadarn.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cefnogi ethos un o flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu: atal niwed.

**Argymhelliad:**
Argymhellir bod £4,500.00 yn cael ei roi o'r Gronfa Fforffedu er mwyn cefnogi'r gweithgarwch hwn.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 16/12/24**